

CYNGOR BRO MORGANNWG
GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A
LLWYTHO A MANNAU PHARCIO)
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 2) 2021

1. Hysbysir drwy hyn fod Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig gwneud Gorchymyn a fydd yn rhoi'r cyfyngiadau parcio a nodir yn yr atodlen isod ar waith.
2. Gellir gweld manylion llawn y cynigion, ar wefan y Cyngor ar www.bromorgannwg.gov.uk ac mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau sydd gennych i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf.IF928) yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i C1V@valeofglamorgan.gov.uk erbyn 9 Ebril 2021 ac mae'n rhaid cynnwys ar ba seiliau rydych yn gwrthwynebu.
3. Rhoddir gwybod i unrhyw un sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor hwn i alluogi'r cyhoedd i archwilio unrhyw sylwadau a ddaw i law am y Gorchymyn arfaethedig.

Caiff y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol ei ddiwygio fel a ganlyn:

Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN

Insert into Map Schedule AY49

**Gorchymyn Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg Arfaethedig
Porthkerry Road, y Barri**

Ar ochr y de o'r gyffordd â Romily Road, tua'r de-ddwyrain
am oddeutu 30 metr.

Ar ochr y de o'r gyffordd â Romily Road, tua'r gogledd-ddwyrain
am oddeutu 17 metr.

Ar ochr y gogledd o'r gyffordd â Windsor Road, tua'r dwyrain at
ffin gyffredin 13-19 (Mount Sorrel) a 19a, pellter sydd oddeutu 41.5 metr.

Romilly Road, y Barri

Ar ochr y gogledd-ddwyrain, o'r gyffordd â Porthkerry Road tua'r de-ddwyrain
am oddeutu 9 metr.

Ar ochr y de-orllewin o'r gyffordd â Porthkerry Road tua'r de-ddwyrain
am oddeutu 11 metr.

Dyddiad: 18 Mawrth 2021.

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg, Yr Alpau, Gwenfô. CF5 6AA.